

Llun (chwith) gan Steve Porter "taken on Jan 3rd 2012 from Traeth Ffynnon on Ynys Enlli looking SW towards the lighthouse during what was probably the worst storm so far this winter. The same day a wind-speed of 93mph was recorded at Aberdaron".

## Pigion o'r Papurau Bro TRYCHINEB DYDD NADOLIG 1806

25 Rhag 1806: *In consequence of a heavy swell in the River Conway the boat carrying the Irish Mail with 8 passengers...all except 2 persons perished*

### Dyma ychydig o gefndir i beth arweiniodd at adeiladu pont Telford - pont grog Conwy.

Yn y dyddiau yma, wrth groesi afon Conwy, naill ai dros un o'r pontydd neu oddi tani drwy'r twnel mae'n hawdd anghofio'r peryglon a wynebhai deithwyr y gorffennol. I'r teithwyr cynnar byddai croesi'r dyfroedd peryglus yma yn aber yr afon yn gryn fenter ac yn achos i aml un offrymu gweddi o ddiolch ar ôl glanio'n ddiogel.

Y cyfeiriad cyntaf at fferi Conwy ydi nodyn gan Geraldus Caribrensis yn 1188 lle mae'n disgrifio siwrnai wnaeth, yng nghwmni Yr Archesgob Baldwin, o Fangor i Rhuddlan. Fel hyn mae o'n disgrifio'i brofiad "having crossed the river Conway at arm of the sea under Deganwy, leaving the Cistercian monastery at Conway on the western bank". Mae'n ymddangos bod y fferi wreiddiol yn croesi o'r morfa, gyferbyn â Deganwy. Roedd hyn yn hwylus i'r mynaich o'r Abaty fynd a dod i weithio ar eu tiroedd yn Y Creuddyn, yr ochr arall i'r afon ac ar yr un pryd gadw golwg ar y goradau (fish traps) yn Llandrillo yn Rhos ac yn Llandudno. Mae'n ddi-ddorol cofio i Harri III a'i fyddin gyrraedd glannau'r afon ym 1247 i ymosod ar Gonwy a dechrau codi tâl ar bawb oedd yn croesi, ac anghofio am yr hawl oedd gan y mynaich i groesi'n ddi-dal. Roedd y 'frait' yma wedi ei chaniatau gan y Tywysogion Cymreig.

Un o'r pethau cyntaf wnaeth Edward 1 pan yn adeiladu'r castell a'r muriau yng Nghonwy ym

1284 oedd symud safle'r fferi o'r morfa i safle o dan furiau'r castell. Yr amcan, mae'n debyg oedd rheoli'r drafnidiaeth dros yr afon ac ar yr un pryd sicrhau mai i goffrau'r brenin yr oedd yr holl elw'n mynd. Doedd y newid ddim yn dderbyniol gan wŷr y fferi ac roedd rhain yn gyndyn o newid hen arferion.

Er mai taith gymharol fer yw'r un dros yr aber fe'i hystyrid yn un hynod beryglus a bu llawer o ddamweiniau a cholli bywydau dros y blynyddoedd.

Oherwydd y peryglon, yr arfer oedd cael cwch ar gyfer y teithwyr, ysgraff (math o rafft) ar gyfer y cerbyd, a chwch arall ar gyfer y ceffylau. Weithiau byddai'n anodd perswadio'r ceffylau i fynd ar y cwch a phan ddigwyddai hyn byddai'n rhaid gadael ceffylau 'ar ôl a chael rhai eraill o stablau'r 'Mail Coach' – tafarn yn nhref Conwy, am weddill y daith.

Bu sawl ymdrech i gael hawl i godi pont dros aber afon Conwy ond un o'r prif wrthwynebwyr oedd perchennog Ystad y Marl yng Nghyffordd Llandudno. Y stad yma oedd biau'r hawl ar y fferi ac roedd yr incwm yn un sylweddol. Ond bu un digwyddiad achosodd i

bethau newid. Ar ddydd Nadolig 1806 trôdd cwch oedd yn cario teithwyr cerbyd yr 'Irish Mail' a boddwyd wyth teithiwr, dyn y cerbyd, y giard a'r hogyn (post boy). Collwyd pymtheg o fywydau, dim ond dau achubwyd. Yn dilyn y ddamwain yma

anfonwyd deiseb i Dŷ'r Cyffredin yn gofyn am bont dros yr afon yng Nghonwy.

Aeth tua deng mlynedd heibio cyn i'r llywodraeth gynnwys cynlluniau pont dros geg yr afon yng Nghonwy fel rhan o'r cynllun i wella'r ffordd rhwng Yr Amwythig a Chaerdybi, y ffordd i'r Iwerddon – yr "Holyhead Road". Dewisiwyd Thomas Telford (1757-1834) i fod yn gyfrifol am y gwaith yn cynnwys cynllunio'r pontydd. Sgotyn oedd Telford ac yn un o beiriannwyr gorau'i oes. Roedd y gwaith o adeiladu Pont Menai wedi dechrau ym 1819 a'i gwblhau ym 1825, ond cyn i'r gwaith yma dechrau fe ddechreuwyd adeiladu Pont Conwy ym 1822 a'i orffen ym 1826. Gan fod angen cyd-ymffurfio â phensaerniaeth y castell mae cynllun pont Conwy ychydig yn wahanol i'r un dros y Fenai.

O'r diwedd 'roedd yna ddull diogel o groesi aber afon Conwy er fod trigolion y dref yn sefyll â'u dwylo dros eu llygaid yn gwyllo'r cerbyd cyntaf yn nesu at y bont, rhag ofn mai disgyn i ddyfroedd yr afon fyddai tynged y goets a'r teithwyr.

Gyda chaniatad yr awdur Stan Wicklen a phapur bro Y Pentan



Fferi dros yr Afon Conwy  
llun gyda chaniatad Betty Pattinson

## Caledi gaeaf drwg-enwog 1947 yn Abergeirw


**4 Mawrth 1947:** Addewid fod y meiriol yn dod ym mhapur heddyw Mawrth 4 Golwg od ar yr afonydd, rhew ar eu hyd ac eira ar y rhew lluchfeydd [sic] tros afon Eirw ymhobman ond y ceunentydd Dan lyn yr afanc yn rhew ond dau dwil bach lle y disgyn y dŵr iddynt lluchfa fawr o eira ar ben y rhew yn y llyn isa Defaid yn cerdded yr afon ymhobman ac yn boddi yn nhyllau y crychoedd - gweld tair mewn llyn wrth y goeden ffawydd uchaf (yn y Forestry) amhosibl eu cadw oddyno, cerddant ar y lluchfeydd dros y cloddiau... cododd yn storm o eira a lluwch at 5 i 6 o'r gloch parhaodd drwy'r nos a thrwy'r dydd heddiw Mawrth 5. Ni welais y fath lluwch erioed gwynt cryf ofnadwy o rywle tua'r dwyrain a lluwch mor dew nes methu bron fynd i'r beudy na gweld fawr fwy na 50 llath (llai lawer weithiau) trwy'r dydd. Dim gobaiith cael dŵr i'r gwartheg na [?dyfrio] Cael rhyw lun o fwcadaid i'r ceffyl o'r ffynnon, dim i'r gwartheg. Allan rhyw 3 plwc yn rhoi ryw lun o damaid i'r creaduriaid, brwydro a'r gwynt a'r lluwch i agor a chau drysau a lluwch i fewn ymhobman. Amhosibl sefyll mwy na rhyw ychydig allan yn y lluwch i chwilio am y ffynnon &c. Diwrnod ofnadwy ac heb osio cychwyn i olwg y defaid, yn wir byddai yn beryglus mynd ymhell ac ni fyddai posibl gwneud dim, y lluwch yn fferu dyn yn lan. Ofnaf y bydd colled mawr ar ôl hwn.

**6 Mawrth 1947:** Os oedd lluchfeydd mawr cynt y maent yn llawer iawn mwy ar ôl hwn. Y gwynt o'r un fan yn union a'r lluwch Chwef 7ed a'r un lluchfeydd fel pe wedi eu chwyddo. Lluchfa tu ol i'r eil yn wastad i fargod y to tros y ffynnon a'r pistyll i dop y llechwedd at odre'r cae bach Las. Lluchfa o dop y Gamfa yma wrth yr ysgol dros y Bont Garreg a thros y clawdd yn wastad a bargod y Garage dim o reilen yr hen Bont Garreg yn y golwg hyd yn oed. Lluchfeydd enbyd ymhob pant. Dim ond pennau y twmpathau drain yn y golwg.

**10 Mawrth 1947:** Argoel am feiriol tua'r 10-12 Mawrth y bargod yn diferu erbyn bore llun y 10 o Fawrth. Bwrw tipyn o law ddydd Llun, rhannau o Afon Eirw yn debyg i Ferddwr, yn llynnau, ond dim digon o ddŵr i dorri cwrs trwy'r eira.

**13 Mawrth 1947:** [Glawio] eto bore a pawns lau y 13eg. Hwmpfra yn methu mynd adre i Bantglas troi yn ei ôl oddiwrth yr ysgol, croesi i'r ffordd trwy Gwndwn Du ac ar hyd yr Orclawdd rhyngom a Waen yr Hendre. Y gors yn llyn, a gwaelod y Weirglodd. Yr ysgol mewn llyn i'r dyfnder o tua llathen i 4tr ar y cwrt. Rywbryd yn y pawns torrodd yr Afon Eirw yr argaeau a bu llif anferth. Y nant fel pe yn methu rhedeg yn ei hen wely gan yr eira a'r rhew Chwalodd y llif y clawdd terfyn yma ac Abergeirw bach, tu ucha i'r ysgol, am tua 80 llath, tua 40-50 llath ysgubwyd ef ymaith yn wastad a'r llawr. Dryllio'r ffens wire net. ar ei ben am dros ganllath. Difetha ffens cwrt yr ysgol, llawer o'r polion concrete wedi torri ac yn fflat ar lawr. Y bont droed lechen wedi ei thafu i lawr a'r coed oedd tani wedi sefyll wrth bont y capel. Pont y capel a rhan o'i phentan gogleddol wedi ei niweidio Tua 8 lath [sic.] o wal y gorlan yma i lawr yn wastad a'r ddaear a'r gorlan isaf wedi ei chwalu bron i gyd. Pob pentan lle yr oedd rheselydd (neu wire n.) wedi eu chwalu o waelod Mynydd Tyddyndu i lawr at yr ysgol. Ugeniau o fylchau yn y cloddiau cerrig ymhobman fel canlyniad i'r eira, rhew a'r llif. Tacluso y rhain a bugeilia [sic.] ac ychydig bethau eraill fum yn gwneud o'r meiriol hyd ddechrau Mehefin ac heb orffen.

Cofnodion Mrs. Betsi Roberts, Cypla, Abergeirw, wedi eu codi o'r llawysgrif gwreiddiol yn union (diolch i'w mab Aelwyn Gomer Roberts). Tanysgrifwyd gan Tom Jones.



o Eco'r Wyddfa 1977 (gyda chaniatâd)

Llyn Padarn wedi rhewi ym mis Ionawr 1947

### Pan dyr y don...



Llun: Gwyn Williams

Tywydd gwyntog a llanw uchel yn creu ewyn ar y traeth yng Nghricieth - 26 Rhagfyr 2011.

Gwyn Williams

la wedi gweld lot o ewyn yn ddiweddar... yr Hydref yn fwy, a stormydd gaeafol yn hwyr eleni. Mae nhw yn dweud mai math o alga o'r enw *Phaeocystis* yw'r prif gyfranwr at yr ewyn. Mae'r gwynt a'r tonnau yn malu'r celloedd, ac yn eu chwipio i greu'r ewyn, fel y mae gwynnwy yn cael eu

chwipio i ewyn, gyda fforc. O dan y microsgop mae *Phaeocystis* yn edrych fel griffi llyfant, pob cell wedi ei amgylchynu â jeli. Y jeli hwn yw'r prif gyfraniad at y 'gwynwy' (protein), sydd yn creu'r ewyn môr. Mae yna fwy o ewyn yn y Gwanwyn a'r Hydref - oherwydd y tywydd drwg, yn corddi'r môr i greu ewyn... nid oes cyn gymaint o ewyn yn yr Haf, er fod yna fwy o'r plancton, oherwydd fod y môr yn dawel. Erbyn y gaeaf nid oes cymaint o blancion yn y môr, ac felly nid yw'r traeth mor ewynnog a ddisgwylir.

Sion Roberts

### Gaeafau Mawr Llandudno

**ddeuddydd cyn y Nadolig, 2010...**a'r coed palmwydd yn gorfod gwneud y gorau ohoni - ond mae nhw yno hyd, ac yn ffynnu!

Gweler Bwletin 7 am fwy o ecoleg coed palmwydd Llandudno

### a Ionawr 1982...

Dyma'r eira gwaethaf i mi ei gofio yn Llandudno yn ystod yr hanner canrif aeth heibio. Tynnais y llun ger ble mae garej ATS heddiw yng Nghraig y Don yn edrych tua'r Gogarth Fach. Dyna'r unig dro i mi weld cymaint o eira ar y promenad! Yn rhyfeddol, defnyddiodd y North Wales Weekly News y llun ar draws tudalen flaen y papur (Rhagfyr 22 eleni) i dynnu sylw at gostau Sir Conwy o £11 miliwn i drwsio ffyrdd y sir yn dilyn eira a rhew y gaeaf diwethaf! Na, wnaethon nhw ddim cydnabod mai hen lun oedd o o'r gorffennol, na'r person a dynnodd y llun!



Lluniau a hanesion: Gareth Pritchard

## Prosiect Cymunedol yn Tatamagouche Nova Scotia



Pwrpas y prosiect yma oedd ail-greu cwch Chaloupe yn null traddodiadol pobl Acadia. Mae'r prosiect dan ofal Capten Keith Driver (llun), a oedd yn arfer gweithio o Gaergybi, ar hyd arfordir Cymru gyda'r awdurdodau

morwrol. Cychwynwyd y gwaith o hen luniau yn unig, gwneud y cynllun ar bapur, ac yna adeiladu un ochr o'r gwch i raddfa bychan iawn. Roedd yma griw hwyliog a diddorol fel cyn athro gwaith coed yn y coleg technegol lleol ac eraill. Daeth holl hanesion gefais gan Tony Lovell [pysgotwr o Gaernarfon] yn fyw i mi yn y fan hyn, o'i straeon fel yr arferai pan yn hogyn ifanc, helpu ei ewythr i drwsio cychod pren yng Nghaernarfon, dyma'n union y



dulliau y soniodd wrtha'i. Pwrpas y tiwb uchod oedd ar gyfer siapio'r coed i wneud asennau'r cwch, byddai'r coed yn cael eu rhoi yn y tiwb hwn, ei gau i fynnu, a'u stemio. Byddai hyn yn cymryd ryw awr. Dyma'n union sut oedd adeiladwyr cychod yng Nghaernarfon flynyddoedd yn ôl yn plygu coed. Gwelwn y keel sef y darn coedyn trwchus ar y gwaelod, a'r Bow Piece ar y blaen, ac ar y cefn cawn Transom neu'r stern. 'Sennau yw'r coed sy'n mynd o'r keel i fyny yn union fel 'sennau dynol. Yma gwelwn y planciau ochr yn y dull Carvel, wedi eu gosod gydag ochr rhai ohonynt ar osgo (bevelled) at ei gilydd. Yna ar ôl cwblhau hyn, byddent yn calcio, sef gwasgu brethyn rhwng y planciau i'w selio. Unwaith y cwblheir y gwaith byddent yn "stenshio", sef rhoi'r gwch yn y dŵr, a'i gadael hi yno am 48 awr fel bod y coed i gyd yn chwyddo fel ei bod yn dal y dŵr. Byddai'r gwch yn llenwi a dŵr yn y broses yma. Defnyddiwyd coed derw ar gyfer yr asennau, ond oherwydd y gost, defnyddir coed meddal ar gyfer yr ochrau. Er bod y mesuriadau yn gywir, os nad oedd y gwaith yn edrych yn iawn i'r llygaid, 'roedd rhaid addasu, byddent yn gosod ambell i 'spacer' ar un neu ddau o'r asennau fel bod y planciau yn eu lle yn gywir. Hoelio'r planciau ar yr asennau roeddynt, gan ddefnyddio hoelion traddodiadol wedi eu gwneud yn arbennig ar gyfer y prosiect, ond wedi eu galfaneiddio. Defnyddiwyd y cychod yma ar hyd arfordir Nova Scotia gan fod yna gyn lleied o ffyrdd oherwydd bod y gwaith o glirio'r coedwigoedd yn enfawr.

Ifor Williams

## Cwningod masweddus!

Cyn dweud fod yr Hwngareg, iaith lleiafrif sylweddol yn Rwmania yn arfer yr un gair *nyul* am gwningen a sgwarnog, dyma ragor o sylwadau ar gwningod i ddifyrru plant Edward Llwyd. Mae Henriette Walter yn ein hatgoffa mai *conill/conin* oedd y gair Hen Ffrangeg, gair a fabwysiadwyd yn Saesneg fel *coney* Roedd y sillaf gynta'n rhy debyg i'r gair anweddus *con* a defnyddiwyd lapin, gair ansicr ei dras, er mwyn osgoi'r amwysedd. Digwyddodd rywbeth digon tebyg yn hanes yr enw Conti, teulu o dras Eidalaid yn Llambod. 'Sonti' yw'r ynganiad bellach er mwyn osgoi sillaf mor aflednais â *cont*.

Wmfra Wmffras

## Griff ser, drifl yr ych, gwawn



Wrth edrych ar y lluniau o riff y ser [Bwletin 11 a 47] (cofio'i weld sawl gwaith a meddwl beth oedd e), mi gofiais am 'yn Wncwl Glyn, oedd yn

son am 'ddrifl yr ych'. Cyn hela fe i ofyn oet ti'n gwybod beth yw e, mi feddyliais y dylen edrych yn GPC, a wir, mae fe 'na - gossamer, yn ôl y geiriadur. Mi ges dipyn o sioc, am y rheswm mai 'gwawn' glywais i mam yn gweud. Wi'n treial cael wrthi ai gair o lyfr neu un a glywodd ar lafar mamgu (chwaer Wncwl Glyn) deu dadcu oedd 'gwawn'. Mi fyddai'n ddi-ddorol i wybod dosbarthaid daearyddol y termau (ac unrhyw dermau eraill am yr un ffenomen). yn ôl mam, 'gwawn' ar lafar - yn treial deall p'un ai yr un peth neu dau beth tebyg yyn nhw.

Gwyn Jones

Llun uchod: Helga Martin; gwawn y gweunydd 14 Tach 2011 uwchben Ysbyty Ifan, gyda gwynt ysgafn a'r haul yn gynnes - ar ôl glaw yn ystod y nos.

## Planhigion gwrth-fiotig?

Osborn Jones yn gofyn: "wedi bod yn meddwl beth fyddai'r chwarelwyr yn ei ddefnyddio at glwyfau llidiedig cyn bod son am wrth-fiotics? Go brin y basa nhw'n defnyddio garlleg, --- eraill o deulu'r nionod tybed? Darllenwyr y Bwletin wedi clywed rhwy son gan rhywun?"

## Gwaith coed hynafol wedi goroesi

*Un ami a attiré notre attention sur une mesure du moyen âge encore debout dans le sud-ouest du Berry. Il nous a dit tout l'intérêt de la construction "dans son jus naturel". Les murs, bois et torchis, et surtout la fenêtre, sans carreaux dès l'origine. Le remarquable ici, d'après ses dires, est l'encadrement solide avec des volets intérieurs qui s'ouvriraient en y passant un doigt, et maintenus fermés par la petite barre pivotante que l'on aperçoit au milieu de la photo.*

Gabriel Quéré



Trosiad: Fe dynnwyd ein sylw gan gyfaiil at hen furddyn canol oesol sydd yn sefyll o hyd yn ne-orllewin Berry [Ffrainc]. Dywedodd wrthym na chafodd y lle ei newid fawr ddim o'i gyflwr gwreiddiol. Mae'r muriau o goed a chlom, a'r ffenest heb gwareli gwydr. Yr hyn sy'n arbennig yma, yn ôl a ddywedodd, yw'r ffram solet gyda chaeadau (*shutters*) mewnl sy'n agor gyda phwysau bys yn unig, ac a gedwir ynghau gan y colyn-troi a welir yng nghanol y llun

## Gwifrau trydan Abergwyngregyn - yr hwyaf yn y byd?

Colin Price thinks that the old NCC leaflet for the Aber Trail claimed that it was the longest 'land' span in Britain (as there is a powerline across the Severn near the bridges which is over a mile long). At about 730m, the Aber span just about gets on the bottom of this list:

[http://en.wikipedia.org/wiki/List\\_of\\_spans](http://en.wikipedia.org/wiki/List_of_spans)

Jeremy Williams

## Gwyllo'r Llongau



llun: Gabriel Quere

Yn rhifyn 47 o'r Bwletin Llên Natur mae cyfarwyddiadau sut i ddarganfod pa awyren sy'n hedfan uwchben. Beth am y llongau sy'n hwylio ar hyd arfordiroedd Cymru? Mae yna lawer mwy o'r rheini! Ship Ais yw enw'r wefan a dyma'r linc i chwi weld map Bae Lerpwl:

<http://www.shipais.com/currentmap.php?map=livbay>

Hawdd iawn wedyn yw newid y map i'ch ardal chwi. Cewch wybodaeth am unrhyw long ar y map, ei maint, ble mae'n mynd, o ble y daeth, ac yn aml iawn nifer o luniau o'r llong hefyd.

Bu'r llong anarferol, Island Pioneer wedi ei hangori allan ym Mae Llandudno am rai dyddiau. O edrych ar y wefan roedd yn bosib darganfod mai'r MV 'Island Pioneer' ydoedd a'i bod ar 'manoeuvre' yn yr ardal. O chwilio ymhellach, gwelwyd nifer o luniau o'r llong, ac mai llong o Norwy yw, a adeiladwyd yn 2006, 95 metr o hyd, 21 metr o léd, a'i bod yn abl i wneud pob math o waith yn y diwydiant olew. Mae digon o le arni i gario criw o 111 ac mae ar siartr i Blue Marine hyd 2013. Gareth Pritchard

## Myffs ermin



a'u hoelio yn dynn i sychu ar gefn drws un o'r adeiladau allanol, a byddai fy mam yn eu defnyddio i wneud 'muff' neu sliperi i ni.

Byddai gennym ni'r genethod 'muff, cylch crwn o ffwr yn hongian wrth ddarn o gord am y gwddf, a rhoem ein llaw i mewn o bob ochr iddo i'w cadw'n gynnes [ardal Sarn Bach, Abersoch]. Ambell waith byddem yn lwcus i gael ei wisgo yn yr ystafell, ond y rhan amlaf ei adael yn y cyntedd oedd raid. Yr oedd pob math o 'muffs' ar gael, rhai 'ermine' gwyn a chynffonnau bychain duon arnynt, ond mwy cyffredin oedd y rhai o groen cwnigen neu groen wrch daear. Byddai fy nhad yn glanhau a chrafu crwyn cwningod a thyrchod daear,

Janet D. Roberts (1985)



Dosbarthiad y carlymod ermin a ddaeth i law Llên Naur  
map: Google

## Trowytoedd y rhenciau

**Meddai Aelwyn Gomer Roberts;** "pan yn fachgen ar fferm fynyddig yn Abergeirw, Meirionnydd ym mhedwar degau'r ganrif ddiwethaf byddem yn lladd a hel gwair yn ystod dyddiau'r haf yn y dull traddodiadol. Byddai fy nhad yn torri cae o wair, neu ffosiad o'r weirglodd â'r peiriant bach un ceffyl ac yn tacluso o gwmpas y cloddiau a'r mannau anhwylyd hefo'i bladur. Yna byddai gweddill y teulu yn ei gynorthwyo i drin y gwair er mwyn ei gael yn ddigon sych i'w gludo i'r tŷ gwair yn y car llusg. Defnyddiem gribin fach i daenu ystodiau, troi a chwalu'r gwair nes ei fod yn berffaith sych ac yn ysgafn, a chael llawer o help gwerthfawr gan yr haul wrth gwrs ac weithiau gan awel o wynt hefyd. Ond 'doedd y gwynt ddim yn garedig iawn bob amser, yn enwedig pan fyddai'r gwair wedi'i hel at ei gilydd yn rhenciau taclus ac yn barod i ni ei dyrru cyn ei

lwytho ar y car llusg. Os codai pwrff mwy na'r cyffredin o wynt yr adeg hon gallai ddad-wneud llawer o'r gwaith caled a fu'n achos cryn chwys i'r criw a fu wrthi mor ddyfal. Ond ambell dro hefyd fe gaem fod ychydig o lanast wedi digwydd mewn un man ar y rhenc a byddai hyn yn gallu peri syndod i ni'r plant nes i ni weld y peth yn digwydd. A dyna oedd, sef trowynt bach iawn yn taro man arbennig nes codi a chwyrlio peth o'r gwair nes bod hwnnw'n esgyn fel rhyw dwmffat bler cyn disgyn yn ôl i'r ddaear, gan adael blewiach o wair yn dal i hedfan uwchben. Digwyddai hyn weithiau pan fyddai storm yn bygwth. Gwelais hefyd drowynt fel hyn yn symud ar hyd rhan o'r rhenc nes gadael ei ôl am lathenni, er gwaethaf ein gwaeddiadau am iddo beidio!"

**Mae Tom Jones yn cofio'r union beth.** Meddai Tom "Rwyf yn cofio un rhaf unai 1970 neu 71 pan yn gweini yn Penystumllyn Criccieth weld rhywbeth

na welais erioed o'r blaen. Roeddwn newydd hel gwair mewn cae bychan wrth yr iard yn barod i'w felio diwedd pnawn wedi iddo gael ychydig o haul. Ond pan yn edrych arno ychydig ar ol cinio dyma welais, sef y gwair mewn un rhan fach iawn yn codi i'r awyr. Troellai am beth amser yna disgyn yn ôl drachefn i'w renc. Digwyddodd hyn 3 gwaith bron iawn yn yr un lle. Rhyw droedfedd ar draws ei dop, yn mynd lawr i ddim ar y ddaear, ac yn codi dim mwy na rhyw bump i chwech troedfedd oddi ar y ddaear. Dywedodd y bailiff ei fod yn mynd i felio yn syth gan fod y tywydd yn newid. Cael a chael oedd hi i gael y gwair o dan dô y diwrnod hwnnw gan iddi ddod yn law trwm. Roeddwn innau yn ei ddilyn gyda trelar yn cario gan nad oedd yno lawer o wair gan i'r cae gael ei bori i fyny i rhyw fis cynt."

[Gweler hanes trowynt Llyn y Gadair gan Celt Roberts ym Mwletin 47]

## Pôs y mis



Beth yw ystyr y gair Almaenig *Himbeeren*. Mae'n werth £10 i'r sawl sydd yn anfon yr ateb cywir cyntaf i'n cyrraedd erbyn 15 Chwefror trwy Facebook Llên Natur neu "Cysylltwch" ar y wefan.

Wrth ateb pôs mis diwethaf dywedodd Ieuan Roberts: "Clem oedd y bedol haearn o tua chwarter cylch a hoelid oddi tano blaen esgid gwadn lledr neu gloes pren i'w amddiffyn rhag treulio. Rwyf cofio, yn y pumdegau, mynd at y crydd yn Nhy Uchaf, Edern a holi am gael clem a phedol ar fy esgidiau



llun: Dominig Kervegant

hoelion mawr oeddwn yn eu gwisgo yn ddyddiol i fynd i'r ysgol gynradd". Llongyfarchiadau Ieuan, tocyn llyfr gwerth £10 ar ei ffordd. Dyma nododd

Anet Tomos o gynnwys Llyfr Cownt ei hen daid John Thomas, Trwyn Garreg, crydd Llanegan tua'r 1860au: 'Yn aml nodir ar gyfer pwy mae'r cwsmer yn prynu e.e. mae Evan Griffith Bwlch yn talu 2g "am glem i Ann", 6c "am glem a thop a chlwt i Janet", 1s 2g am "gwadnau a thopis i Margaret", 4c "am dopis i Elinor" a 4c "am 2 glem i William mab Hugh.'